CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL.

CABINET GWEITHREDOL
22 Mehefin 2021

AWDUR YR ADRODDIAD:	**Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander** **Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Iaith Gymraeg**
TEITL YR ADRODDIAD:	**Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021 Drafft**

ADRODDIAD ER: **Ystyriaeth**

1. Diben

1.1 Diben yr adroddiad yr cyflwyno Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Drafft i'w ystyried a'i gymeradwyo. Mae'r Adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gafodd ei gynnal yn ystod 2020-21 i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a pherfformiad yn erbyn gofynion y Safonau.

2. Cefndir

2.1 Mae gofyn i'r Cyngor, o dan Safonau'r Gymraeg, i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â gofynion y Safonau yn ystod y flwyddyn flaenorol.

2.2 Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Drafft (wedi'i atodi fel Atodiad A) yn cyfeirio at waith yr ymgymerwyd ag ef i gydymffurfio â'r;

- Safonau Cyflenwi Gwasanaeth – sy'n nodi sut mae gofyn i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, e.e. dros y ffôn, mewn cyfarfodydd, trwy ohebiaeth, mewn dogfennau a thrwy lwyfannau digidol
- Safonau Llunio Polisi – sy'n nodi sut mae gofyn i'r Cyngor ystyried effaith ei benderfyniadau a'i wasanaethau ar yr iaith Gymraeg
- Safonau Gweithredu – pa wybodaeth, cefnogaeth a gweithdrefnau sy'n rhaid i'r Cyngor eu darparu ar gyfer ei weithlu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i'w galluogi i weithio mwy trwy gyfrwng y Gymraeg
- Safonau Hybu – sut mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ym Mhowys.
- Safonau Cadw Cofnodion – cofnodion penodol y mae gofyn i'w Cyngor eu cadw yn ymwneud â'r iaith Gymraeg

2.3 Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno'r gwaith sydd i'w gyflawni yn ystod 2021-22 i wella'r modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'r trigolion, ymwelwyr a'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg; i sicrhau fod yr

effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael ei ystyried trwy brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor, yn cynnwys sut gellir addasu cynigion i sicrhau effaith fwy cadarnhaol neu lei andwyol; ac i hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg trwy waith y Cyngor.

2.4 Mae'r adrannau olaf yn cynnwys y data y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei gofnodi o dan y Safonau Cadw Cofnodion, sy'n cynnwys;

- Cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ymwneud â'i gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, ynghyd ag Ymchwiliadau Safonau'r Gymraeg a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21
- Data ar sgiliau iaith Gymraeg gweithlu'r Cyngor
- Nifer y staff sy'n ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant a ddarperir gan y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gofynion sgiliau iaith swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

3. Cyngor

3.1 I gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021 Drafft i'w gyhoeddi ar wefan gyhoeddus y Cyngor. Mae hyn yn darparu adolygiad o waith a wnaed gan y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, ac i gwrdd â'i rwymedigaethau statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4. Goblygiadau o ran Adnoddau

4.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Drafft yn adolygiad o'r gwaith a wnaed yn ystod 2020-21 ac o wybodaeth a ddelir gan y Cyngor yn ymwneud â'i gydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r cynllun gwaith sydd wedi'i gynnwys ar gyfer 2021-22 o fewn y gyllideb sy'n bodoli.

5 Mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi'r argymhelliad.

5. Goblygiadau Cyfreithiol

5.1 Cyfreithiol: gellir derbyn yr argymhellion o safbwynt cyfreithiol

5.2 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Swyddog Monitro) wedi nodi fel a ganlyn: "Nodaf y sylw cyfreithiol ac nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at yr adroddiad".

6. Diogelu Data

6.1 D/B

7. Sylwadau gan Aelod(au) lleol

7.1 D/B

8. Asesiad Effaith Integredig

8.1 Nid oes angen Asesiad Effaith gan fod yr Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yn adolygiad o waith a gynhaliwyd yn ystod 2020-21 ac o wybodaeth a ddelir gan y Cyngor yn ymwneud â'i gydymffurfiaeth â'r Safonau.

9. Argymhelliad

Argymhelliad:	**Rheswm am yr Argymhelliad:**
I gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021 Drafft (wedi'i atodi fel Atodiad A) i'w gyhoeddi ar wefan gyhoeddus y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2021.	I ddarparu adolygiad o waith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. I sicrhau fod y Cyngor yn cwrdd â'i rwymedigaethau statudol, fel yr amlinellir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Swyddog Cyswllt:	Bedwyr Fychan
Ffôn:	01597 826126
E-bost:	bedwyr.fychan@powys.gov.uk
Pennaeth Gwasanaeth:	Emma Palmer, Pennaeth Trawsnewid a Chyfathrebu